

7/2/23

## Annwyl Weinidog

Rydym yn ysgrifennu atoch fel y Grŵp Trawsbleidiol ar Dai cyn y Ddadl yn y Cyfarfod Llawn yn ddiweddarach heddiw ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.

Yn ein cyfarfod ddoe clywsom am:

- y pwysau digynsail a deimlir gan wasanaethau digartrefedd awdurdodau lleol gyda bron i 9,000 o bobl mewn llety dros dro ac opsiynau fforddiadwy cyfyngedig iawn ar gyfer llety symud ymlaen
- yr argyfwng a brofir gan wasanaethau digartrefedd a chymorth tai hanfodol sy'n wynebu'r dewis a ydynt am dalu llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol neu wneud toriadau i wasanaethau, a'u staff nad ydynt yn ennill digon i osgoi'r bygythiad o ddigartrefedd eu hunain
- pryderon sylweddol landlordiaid cymdeithasol ynghylch sut y byddant yn bodloni disgwyliadau ar gyfer datgarboneiddio a gwella stoc heb effeithio'n andwyol ar y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

Fel grŵp, rydym am godi ein pryderon gwleidyddol a phroffesiynol ar y cyd ynghylch a yw'r gyllideb ddrafft yn canolbwyntio ar y pethau cywir er mwyn darparu ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed yn ein hargyfwng tai presennol.

Ardaloedd allweddol yr hoffem eich gweld yn eu hail-ystyried yw:

### Grant Cynnal Tai

- A ydy'r Gweinidog yn cydnabod bod angen cynyddu GCT er mwyn bodloni effaith chwyddiant a'r pwysau cynyddol ar y system ddigartrefedd?
- Sut mae darparwyr gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai i fod i barhau i ddarparu gwasanaethau pan fo cost darparu wedi cynyddu cymaint?
- Sut mae gwasanaethau i fod i atal staff rheng flaen rhag cael eu gwthio i dlodi drwy gynyddu cyflogau os nad oes cynnydd yn yr GCT?

### Datgarboneiddio a chartrefi cymdeithasol newydd, fforddiadwy i'w rhentu

- O ystyried y pryderon eang a godwyd yn yr ymgynghoriad diweddar ar Safonau Ansawdd Tai Cymru 2023, beth yw'r ffordd ymlaen y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei chymryd o ran cyllid?
- Ni ellir cyflawni'r disgwyliadau safonol ac uchelgeisiol i ddatgarboneiddio'r stoc tai cymdeithasol gyda'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu ar hyn o bryd. Sut y gall landlordiaid cymdeithasol gyflawni'r rhain heb gwtogi ar eu gwasanaethau a'u rhaglenni datblygu?
- Ydy hi'n iawn bod yr agenda datgarboneiddio yn canolbwyntio cymaint ar dai cymdeithasol? Mae'n rhaid i ni fod yn sensitif i anghenion tenantiaid cymdeithasol gan

# Mabon ap Gwynfor

Aelod o'r Senedd dros  
Ddwyfor Meirionnydd

Member of the Senedd for  
Dwyfor Meirionnydd


## Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
Mabon.ap.Gwynfor@senedd.cymru  
<https://senedd.cymru/pobl/mabon-ap-gwynfor-as/>

## Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
Mabon.ap.Gwynfor@senedd.wales  
senedd.wales/Name  
<https://senedd.wales/people/mabon-ap-gwynfor-ms/>

0300 200 6565 

@mabon.ap 

@mabonapgwynfor 

/mabonplaidcymru 

sicrhau nad ydynt yn fan profi yn unig ar gyfer technolegau newydd, a bod amser ar gael i ddysgu a chydweithio. Mae angen ystyried hefyd sut y gall datgarboneiddio gael ei gyflwyno a'i ariannu ar draws y sector preifat.

Sylweddolwn nad yw'r penderfyniadau y mae'n rhaid i chi eu gwneud yn hawdd, ond fe'ch anogwn i ailystyried elfennau tai y gyllideb derfynol i sicrhau bod cymorth ariannol yn mynd lle y mae ei angen fwyaf yn y cyfnod anodd hwn.

Yn ddifuant



Mabon ap Gwynfor AS

Cadeirydd



# Mabon ap Gwynfor

Aelod o'r Senedd dros  
Ddwyfor Meirionnydd

—  
Member of the Senedd for  
Dwyfor Meirionnydd

**Senedd Cymru**

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
Mabon.ap.Gwynfor@senedd.cymru  
<https://senedd.cymru/pobl/mabon-ap-gwynfor-as/>

**Welsh Parliament**

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
Mabon.ap.Gwynfor@senedd.wales  
senedd.wales/Name  
<https://senedd.wales/people/mabon-ap-gwynfor-ms/>

0300 200 6565 

@mabon.ap 

@mabonapgwynfor 

/mabonplaidcymru 

7/2/23

Dear Minister

We are writing to you as the Housing Cross Party Group ahead of the Plenary Debate later today regarding the Welsh Government's Draft Budget 2023-24.

In our meeting yesterday we heard about:

- the unprecedented pressures being felt by local authority homelessness services with nearly 9,000 people in temporary accommodation and extremely limited affordable options for move on accommodation
- the crisis being experienced by vital homelessness and housing support services who are facing a choice of whether to pay less than the Real Living Wage or make cuts to services, and their staff who simply aren't earning enough to avoid the threat of homelessness themselves
- the significant concerns of social landlords on how they will meet expectations for decarbonisation and stock improvement without it adversely impacting on the services they provide.

As a group, we wanted to raise our collective political and professional concerns about whether the draft budget is focusing on the right things in order to provide for the most vulnerable people in our current housing emergency.

Key areas which we would like you to reconsider are:

## **Housing Support Grant**

- Does the Minister recognise that HSG needs to be increased in order to meet the impact of inflation and growing pressures on the homelessness system?
- How are homelessness and housing support service providers supposed to continue delivering services when the cost of delivery has increased so much?
- How are services supposed to prevent frontline staff being pushed into poverty by increasing wages if there is no uplift in the HSG?

## **Decarbonisation and new, affordable social homes for rent**

- Given widespread concerns raised in the recent consultation on Welsh Housing Quality Standards 2023, what is the Welsh Government's intended way forward in terms of funding?



# Mabon ap Gwynfor

Aelod o'r Senedd dros  
Ddwyfor Meirionnydd

—  
Member of the Senedd for  
Dwyfor Meirionnydd

## Senedd Cymru

Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN  
Mabon.ap.Gwynfor@senedd.cymru  
<https://senedd.cymru/pobl/mabon-ap-gwynfor-as/>

## Welsh Parliament

Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN  
Mabon.ap.Gwynfor@senedd.wales  
senedd.wales/Name  
<https://senedd.wales/people/mabon-ap-gwynfor-ms/>

0300 200 6565 

@mabon.ap 

@mabonapgwynfor 

/mabonplaidcymru 

- Meeting the standard and ambitious expectations to decarbonise the social housing stock cannot be achieved with the funding that is currently being allocated. How can social landlords deliver on these without scaling back their services and development programmes?
- Is it right for the decarbonisation agenda to be focused so much on social housing? We need to be sensitive to the needs of social tenants, ensuring that they are not just a testing place for new technologies and that there is time to learn and collaborate. There is also need to consider how decarbonisation can be delivered and financed across the private sector.

We realise that the decisions you are having to make are anything but easy, but we urge you to reconsider the housing elements of the final budget to ensure that financial support goes where it is needed most in these difficult times.

Yours sincerely



Mabon ap Gwynfor MS  
Chair